# Gwybodaeth am Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru




Darllen Hawdd

# Darllen Hawdd



Mae hwn yn fersiwn Darllen Hawdd o rywfaint o wybodaeth. Efallai na fydd yn cynnwys y wybodaeth i gyd, ond bydd yn dweud wrthych chi am y rhannau pwysig.




Mae'r llyfryn Darllen Hawdd hwn yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Efallai y byddwch dal angen help i'w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn llythrennau **trwm** – mae hyn yn golygu fod yr ysgrifennu'n fwy trwchus a thywyll. Mae'r rhain yn eiriau pwysig yn y llyfryn.




Weithiau mae gair du yn anodd ei ddeall. Fe wnawn ni egluro'r hyn mae'n ei olygu.




Mae geiriau glas sydd wedi'u tanlinellu'n dangos dolenni at wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch glicio ar y dolenni hyn ar gyfrifiadur.

# Yr hyn sydd yn y llyfryn hwn

Hanes y llyfryn hwn....4

Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) yng Nghymru....5


Beth mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) yn ei wneud?....6

Sut mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) yn wahanol i Brif Gwnstabl?....10

Pa grwpiau eraill sy'n gysylltiedig hefo gwasanaethau'r heddlu?....11

Dewch i wybod mwy....14

# Hanes y llyfryn hwn



Mae'r llyfryn hwn am **Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh)** yng Nghymru.




Mae **Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh)** yn rheoli'r gwasanaeth heddlu mewn ardal benodol.



Bydd y llyfryn hwn yn dweud mwy wrthych chi am CHTh yng Nghymru a'r hyn maen nhw'n ei wneud.

# Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) yng Nghymru

Mae 4 gwasanaeth heddlu yng Nghymru. Mae gan bob gwasanaeth heddlu CHTh:



- 1 ar gyfer gwasanaeth heddlu Dyfed Powys.
- 1 ar gyfer gwasanaeth heddlu Gwent.
- 1 ar gyfer gwasanaeth heddlu Gogledd Cymru.
- 1 ar gyfer gwasanaeth heddlu De Cymru.




Mae pobl yn pleidleisio pwy maen nhw eisiau fod yn CHTh ar gyfer y gwasanaeth heddlu yn eu hardal nhw.



Hefyd, mae gan bob gwasanaeth heddlu **Brif Gwnstabl**.

Mae'r **Prif Gwnstabl** yn arwain y gwasanaeth heddlu o ddydd i ddydd.

# Beth mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) yn ei wneud?




Cofiwch, mae CHTh yn rheoli'r gwasanaeth heddlu mewn ardal benodol.




Mae CHTh yn gwneud 4 peth:

1. Penderfynu ar yr hyn mae'r gwasanaeth heddlu angen weithio arno fo.



2. Penderfynu ar yr hyn y dylai'r gwasanaeth heddlu wario pres arno fo.



3. Gwneud yn siŵr fod Prif Gwnstabl y gwasanaeth heddlu yn gwneud eu gwaith yn dda.



4. Gwrando ar yr hyn mae pobl yn feddwl am y gwasanaeth heddlu yn eu hardal nhw.

## Sut mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHTh) yn gwneud eu gwaith?

Er mwyn gwneud yn siŵr bod nhw'n gwneud y 4 peth yma, mae CHTh yn:




- Meddwl am yr hyn mae pobl wedi dweud wrthyn nhw pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau am y gwasanaeth heddlu.




- Ysgrifennu cynllun Heddlu a Throsedd sy'n egluro'r hyn wnaiff y gwasanaeth heddlu weithio arno fo.




- Penderfynu faint o dreth cyngor pobl sy'n mynd at y gwasanaeth heddlu.


Er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud y 4 peth yma, mae CHTh hefyd yn:





- Gweithio hefo sefydliadau eraill er mwyn stopio trosedd.



- Gwneud yn siŵr fod Prif Gwnstabliaid a'u gwasanaeth heddlu nhw'n gweithio'n dda.



- Penderfynu pwy ddylai'r Prif Gwnstabl fod.




- Edrych ar gwynion mae pobl wedi'u gwneud am y gwasanaeth heddlu.



- Rhoi arian i wasanaethau a phrosiectau diogelwch.

Er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwneud y 4 peth yma, mae CHTh hefyd yn:




- Gwneud yn siŵr fod pawb yn cael dweud eu dweud am yr heddlu, gan gynnwys grwpiau o bobl sy'n aml yn cael eu hanwybyddu.




- Gwneud yn siŵr fod y gwasanaeth heddlu yn gwario pres ar y pethau iawn.

# Sut mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) yn wahanol i Brif Gwnstabl?




Mae CHTh ardal yn cael eu pleidleisio gan bobl ac yn creu cynllun i'r gwasanaeth heddlu ei ddilyn mewn ardal.




Mae'r Prif Gwnstabl yn gwneud yn siŵr fod y cynllun hwn yn digwydd yn yr ardal ac yn cael ei ddilyn gan y gwasanaeth heddlu.



Mae'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod y gwasanaeth heddlu yn stopio trosedd o ddydd i ddydd.

# Pa grwpiau eraill sy'n gysylltiedig hefo gwasanaethau'r heddlu?


## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh)



Mae gan bob CHTh dîm sy'n helpu nhw wneud eu gwaith nhw.




Enw'r tîm ydy Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.




Mae gan bob un yn y tîm swydd wahanol.

# Y Panel Heddlu a Throsedd



Paneli Heddlu a Throsedd ydy grwpiau o bobl sy'n gwneud yn siŵr fod CHTh yn gweithio'n dda ac yn gwneud y penderfyniadau iawn.




Mae gan bob gwasanaeth heddlu yng Nghymru Banel Heddlu a Throsedd.




Rhaid i CHTh hefyd siarad hefo Paneli Heddlu a Throsedd am benderfyniadau pwysig.

# Plismona yng Nghymru



Weithiau, mae rhaid i'r holl arweinwyr gwasanaethau heddlu gwahanol, fel CHTh a Phrif Gwnstabliaid, gyfarfod.



Mae hyn fel eu bod nhw'n gallu siarad am faterion mawr sy'n broblem i Gymru gyfan.




Plismona yng Nghymru ydy'r enw 'da ni'n ei ddefnyddio am holl arweinwyr gwasanaethau heddlu gyda'i gilydd.

# Dewch i wybod mwy

Os 'da chi eisiau gwybod mwy, gallwch fynd ar wefan gwasanaeth heddlu eich ardal chi:



- Gwasanaeth heddlu Dyfed Powys: www.dyfedpowys-pcc.org.uk



- Gwasanaeth heddlu Gwent: www.gwent.pcc.police.uk



- Gwasanaeth heddlu Gogledd Cymru: www.northwales-pcc.gov.uk



- Gwasanaeth heddlu De Cymru: www.southwalescommissioner.org.uk

Cafodd y llyfryn Darllen Hawdd hwn ei greu gan easy-read-online.co.uk
Mae'r llyfryn yn cynnwys lluniau trwyddedig gan Photosymbols a Shutterstock.